

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
2 Mawrth 2017 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Ian Jones, Geraint R. Jones, Emyr Williams, Edd Huws, Dafydd Iwan, Ifor Dylan Williams, Gwyneth Thomas

Cadeirio: Erddyn Davies

Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Chris Hughes

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

Cafwyd munud o dawelwch er cof am y cyn-Gynghorydd Cyril Owen fu farw'n ddiweddar.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion mis Chwefror 2017.

Cynnig: Ian Jones

Eilio: Edd Huws

4. CYFLWYNIAD A THRAFODAETH AR FANDEANG A SIGNAL FFÔN SYMUDOL YN LLANFAGLAN A BONTNEWYDD – GERAINT STRELLO RHEOLWR RHANBARTHOL BT

Cafwyd cyflwyniad diddorol a buddiol gan Geraint Strello, Rheolwr Rhanbarthol BT, ar y ddarpariaeth ffôn symudol a band eang ym Montnewydd a Llanfaglan.

Eglurwyd fod y gwasanaeth band eang safonol yn cael ei ddapraru drwy gyfrwng y wifren ffôn gopr sy'n mynd o bob cyfenwidfa i dai unigol. Po fwyaf yw hyd y wifren, h.y. y pellaf yw eiddo o gyfnewidfa, yna lleihau mae cyflymder y gwasanaeth, gan fod y dechnoleg yn hen ac wedi ei ddyfeisio'n wreiddiol i gario sain yn unig ac nid rhyngwyd.

Mae band eang cyflym iawn – cyflymder o 50 Mb unai'n cael ei ddarparu drwy gebl ffibr uniongyrchol o'r gyfnewidfa i'r ty, neu drwy gyfaddawd, sef ffibr o'r gyfnewidfa i'r cabinet stryd agosaf, a wifren gopr wedyn. Mewn dinasoedd, mae'n gost effeithiol darparu cebl ffibr yn uniongyrchol i'r ty ond fydd hynny byth bron yn digwydd yn ardaloedd gwledig Cymru fel Gwynedd. Byddai'n costio tua £29bn i ddarparu ffibr uniongyrchol i bob eiddo ym Mhrydain, sef dwbl cyllideb flynyddol y Cynulliad, ac felly ni fydd byth yn digwydd drwy ddefnyddio'r dechnoleg sydd ar gael ar hyn o bryd.

Trafodwyd sefyllfa Llanfaglan yn benodol. Mae'r sefyllfa'n amrywio'n fawr yno, gyda rhai yn medru cael band eang ffibr, ond fydd eiddo ar ochr y Foryd ddim yn medru derbyn band eang ffibr am eu bod ormod o bellter o'r gyfnewidfa. onibai fod yna ddatblygiadau technegol. Natur wasgaredig ddearyddol ardal Llanfaglan yw'r rheswm fod argaeledd a chyflymder band eang yn amrywio cymaint yno.

Yn anffodus felly, er bod disgwyl gwelliant i'r gwasanaeth, yn ymarferol ni fydd rhai cartrefi yn medru derbyn band eang derbynol, (er gwaethaf buddsoddiad Llywodraeth Cymru), drwy ddefnyddio'r rhwydwaith bresennol. Awgrymwyd y dylai eiddo nad sydd yn derbyn cyflymder digonol edrych ar opsiynau eraill megis, Ffibr Cymunedol BT, ble mae clwstwr o dai yn mynd ati i gael band eang ac yn talu am y gwaith eu hunain, ond gall hyn gostio hyd at £3,000 yr eiddo. Ceir grantiau hefyd gan Access Broadband Cymru.

Opsiwn arall yw derbyn y signal drwy loeren, a thalu tanysgirfiad pob mis i ddarparwr y lloeren, e.e. Avonline. Gall y tanysgrifiad fod am bris rhesymol ond mae'r data y gellir ei ddefnyddio yn fisol yn medru bod yn gymharol gyfyngedig. Hefyd rhaid talu am y lloeren ac am ei gosod.

Fibresepeed, (cwmni preifat gafodd symiau sylweddol o arian gan Lywodraeth Cymru) sy'n gyfrifol am y bibell ffibr rhwng Pwllheli a glannau'r Fenai, ond dim ond busnesau fedr ei defnyddio a chymharol ychydig sydd wedi gwneud hyd yn hyn. Er fod y bibell yn rhedeg nepell o bentref Llanfaglan, ni all trigolion Llanfaglan gymryd mantais ohoni ar gyfer darpariaeth band eang.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu rhaglen gwerth £231m ble mae BT Openreach yn bwriadu darparu rhyw fath o gyswilt band eang ffibr o leiaf 24 Mb i 95% o gartrefi yng Nghymru. Serch hynny, rhaid cofio mai 95% o eiddo yw'r targed ac nid 95% o'r boblogaeth, sy'n golygu y bydd 100% o eiddo mewn ardaloedd trefol yn cael y gwasanaeth, ond mewn ardaloedd gwledig, bydd y ganran dipyn yn is.

Diolchodd y Cadeirydd i Geraint Strello am y cyflwyniad oedd wedi bod yn ddefnyddiol iawn o ran egluro'r dechnoleg, y sefyllfa'n lleol, a'r opsiynau posibl oedd ar gael.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION

5.1 Coed Llwyn Beuno

Cysylltodd aelod o'r cyhoedd â'r Cynghorydd Emyr Williams i ddweud nad oedd y gwaith o docio'r coed y tu allan i Llwyn Beuno wedi ei wneud gan Gartrefi Cymunedol Cymru.

Roedd y Clerc ar ddeall gan Gartrefi Cymunedol Cymru fod y gwaith wedi ei wneud, ond bydd yn cysylltu gyda Gartrefi Cymunedol Cymru ar fyrder.

5.2 Defnydd Hwyl y Bont o Gae Stanley

Mae Hwyl y Bont wedi dod i gytundeb gydag ysgol Gynradd Bontnewydd i ddefnyddio iaradyr ysgol ar gyfer eu gweithgareddau. Felly ni fyddant angen defnyddio Cae Stanley.

5.3 Arwydd Rhes Magdalen

Bu i Gyngor Gwynedd dynnu'r arwydd i'w adnewyddu rai wythnosai yn ôl, ond nid yw wedi cael ei ail osod. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt orffen y gwaith.

5.4 Llythyr at y Cynghorydd Chris Hughes

Ysgrifennodd y Clerc at y Cynghorydd Chris Hughes, yn mynegi siom a phryder y Cyngor Cymuned am ei ddiffyg presenoldeb dros y misoedd diwethaf.

Cafwyd ateb gan y Cynghorydd Chris Hughes yn egluro fod ei gyfeiriadau e-byst wedi newid, ac felly nid oedd wedi derbyn unrhyw ohebiaeth gan y Clerc.

6. MATERION ARIANNOL

6.1 Cyflog a Chostau Clerc Chwefror 2016

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00 y mis

Cyfanswm Gros £253.18 y mis

Cyfanswm Net £211.58 y mis

6.2 Anfoneb Archwiliwr Allanol 2016/17 £418.80

6.3 Aelodaeth Un Llais Cymru 2017/18 £138.00

6.4 PWLB £406.35 13 Mawrth 2017 (tua £10,000 ar ôl i'w dalu)

6.5 Balans yn y Banc 1 Mawrth 2017- £10,031.79

7. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

7.1 Cais Cynllunio C17/0107/19/LL a C17/0011/19/MW Caniatâd dros dro ar gyfer gwaith cysylltiedig â ffordd osgoi Bontnewydd – gwybodaeth ychwanegol a chywiriad i'r Datganiad Amgylcheddol

7.2 Cais Cynllunio C17/0145/19/LL Estyniadau a newidiadau Penrhos, Llanfaglan, Caernarfon, LL54 5RB

7.3 Cais Cynllunio C17/0147/14/LL Adfer ac uwchraddio rhodfa mynediad Allt Rhyddallt-bach, Ffordd Pen Y Bryn, LL55 2YT

8. GOHEBIAETH

- DEWIS Cymru

- Ail gyfnod ymgynghori ar y newid i etholaethau seneddol Comisiwn Ffiniau Cymru
- Cyfarfod Cyffredinol Cynghrair Cymunedau Cymraeg 4 Mawrth Aberystwyth

Derbyniwyd yr uchod i gyd er gwybodaeth

9. MATERION ERAILL

9.1 Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Gwynedd – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Mae'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol yn cynnal arolwg o'r tefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd gyda'r bwriad o ystyried a llunio cynigion ar gyfer trefniadau yn y dyfodol.

Ceir cyfle i gynnig sylwadau cychwynnol rhwng 10 Chwefror 2017 a 31 Mai 2017. Bydd y Comisiwn wedyn yn paratoi cynigion draft ar gyfer Gwynedd. Bydd cyfle i gynnig sylwadau yn dilyn cyhoeddi'r Cynigion Drafft hefyd.

9.2 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn

Gwnaethpwyd newidiadau i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn dilyn archwiliad cyhoeddus. Mae'r gofrestr Newidiadau Materion Sy'n Codi ar gael i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau arno am gyfnod o 6 wythnos hyd at 9 Mawrth 2017.

Nid oes unrhyw newidiadau sy'n effeithio a gofynnwyd i'r Clerc ar ardal Cyngor Cymuned Y Bontnewydd.

9.3 Ffordd Osgoi Bontnewydd

Cyhoeddwyd y bydd Ymchiliad Cyhoeddus yn cael ei gynnal ar gyfer ffordd osgoi Bontnewydd yn yr wythnos yn cychwyn 12 Mehefin.

Mi fydd hi felly yn o leiaf diwedd 2017 os nad dechrau 2018 cyn bod gwaith adeiladu'r ffordd osgoi yn dechrau o ddifrif.

Mae'r Clerc wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad dros yr oedi cyn penu dyddiad yr Ymchwiliad Cyhoeddus, o gofio fod llwybr y ffordd osgoi wedi ei gytuno'n derfynol dros 4 blynedd yn ôl.

9.4 Cyflwr Y Ganolfan

Mae un o'r gwresogyddion yn neuadd Y Ganolfan wedi cael ei farnu'n anaddas i'w ddefnyddio bellach. Dim ond un gwresogydd wal sydd yn gwresogi'r neuadd ar hyn bryd.

Bwriedir lleoli gwresegyddion trydan sbâr yn Y Ganolfan dros dro, ond maent yn costio llawer mwy i'w rhedeg na'r gwresogyddion gwreiddiol. Mae angen felly ystyried pa ffordd fydd y ffordd orau i wresogi'r Ganolfan yn y dyfodol.

Mae'r gegin hefyd yn dangos ei hoed, ac mae angen adnewyddu'r unedau a'r llawr. Cafwyd unedau ail law fel rhodd gyda'r bwriad i'w gosod yn y gegin beth amser yn ôl.

Bydd Pwyllgor Y Ganolfan yn ymchwilio ac yn priso'r newidiadau uchod.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

6 Ebrill 2017 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd.

